# Mesurau a gyflwynwyd i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Ngerddi Botanegol y Rhyl

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cymryd camau yn dilyn adroddiadau o achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Ngherddi Botanegol yn y Rhyl.

Yn dilyn cynnydd diweddar mewn digwyddiadau yn y gerddi, mae'r Cyngor wedi comisiynu gwasanaeth cwmni diogelwch lleol i fynd o amgylch y parc y chloi’r giatiau am 10pm bob nos ac ail-agor am 8am.

Dywedodd Tony Ward, Pennaeth Priffyrdd, Cyfleusterau a Gwasanaethau Amgylcheddol: “Mae’r mesurau hyn wedi eu trafod a'u cytuno gyda Chyfeillion y Gerddi Botanegol i ddiogelu'r ased pwysig hwn ar gyfer cymuned leol y Rhyl.

“Bydd hyn yn fesur dros dro yn dilyn y digwyddiadau diweddar, fodd bynnag bydd yn cael ei adolygu yn rheolaidd.”

Mae’r Cyngor yn gweithio tuag at gychwyn y trefniant hwn ddydd Llun 17 Mai.